

Prifysgol Aberystwyth

yn Eisteddfod Genedlaethol, Ynys Môn 2017

Amserlen Gweithgareddau

Dydd Sadwrn

14:00 Dewch i gael tynnu'ch llun gyda thlws PRO12 Guinness!

Mae'n bleser mawr gallu cadarnhau y bydd y Scarlets, yn rhan o'u 'taith tlws', yn dangos tlws PRO12 Guinness ar ein stondin. *Prifysgol Aberystwyth mewn partneriaeth â chlwb rygbi'r Scarlets, yn hybu 'Menter Bwyta'n Iach'.*

Dydd Llun

9:30 Beth yw'r ffordd fyrraf o gyrraedd gartref?

Dewch i ddysgu sut gall swigod (ie, swigod!) gael eu defnyddio i ddatrys problemau mathemategol cymhleth gyda Dr Tudur Davies o'r Adran Fathemateg.

10:30 Deddfwriaeth, rheoleiddio, anogaeth - sut i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg?

Trafodaeth ar rôl safonau'r Gymraeg gyda phanel yn cynnwys Meri Huws, Comisiynydd y Gymraeg, wedi ei gadeirio gan Rhys Evans o gwmni Ateb.

12:00 Pantycelyn 2019

Cyfle i weld cynlluniau pensaernïol i adnewyddu neuadd breswyl Pantycelyn a chlywed mwy am y datblygiad yng nghwmni Gweryll Pierce Jones, cadeirydd y Bwrdd Prosiect.

14:00 Bywyd Newydd i'r Hen Goleg

Edrychwn yn ôl ar hanes adeilad eiconig y Hen Goleg, a darganfod cynlluniau i ddatblygu'r gofod at y dyfodol.

15:00 Sesiwn lansio Perfformio'r Genedl:

Ar Drywydd Hywel Teifi Edwards

Trafodaeth banel dan gadeiryddiaeth Dr Anwen Jones (Adran Theatr, Ffilm a Theledu) i lansio'r gyfrol 'Perfformio'r Genedl: Ar Drywydd Hywel Teifi Edwards' (Gwasg Prifysgol Cymru, 2017).

16:30 Seremoni'r Coroni

Dewch draw i wylïo'r Coroni ar ein sgrin fawr dros baned a chacen.

Dydd Mawrth

10:30 Lansiad BA newydd: Creu Ffilm

Ymunwch ag Adran Theatr, Ffilm a Theledu i lansio gradd BA newydd sy'n ateb gofynion creu ffilm yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae'r cwrs wedi ei gynllunio gan Huw Penallt Jones ac yn y sesiwn bydd Huw yn rhannu ei brofiadau o weithio ym myd ffilm.

**12:30 Cwrdd â'r Myfyrwyr:
Gorwelion y Gymraeg**

Sesiwn hwyliog yn rhannu doniau rhai o fyfyrwyr israddedig ac uwchraddedig yr Adran Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd gyda Marged Tudur, Miriam Elin Jones ac eraill.

**14:00 Sgragsabia! Sesiwn stori
'Cyfres Sgragan', gyda Mair Tomos Ifans**

Sgragsabia! Ymunwch â CAA Cymru a Mair Tomos Ifans wrth iddi ddarllen o lyfrau'r gyfres Sgragan. Dewch am lond trol o hwyl i'r holl deulu.

**15:30 O Gymru i Botany Bay:
Troseddwy'r Benywaidd o Gymru**

Dr Lowri Cunningham Wyn, darlithydd troseddeg Adran y Gyfraith sy'n trafod hanes lliwgar troseddwy'r benywaidd o Gymru.

Dydd Mercher

10:30 Lansiad cyfrol Evan James Williams (Gwasg Prifysgol Cymru, 2017)

Dewch i lansiad cyfrol ddifyr a dadlennol am un o brif wyddonwyr Cymru yn yr ugeinfed ganrif, a ffisegydd gorau Cymru erioed, yr Athro Evan James Williams. Bydd awdur y gyfrol, Rowland Wynne, yn trafod y dyn a'i waith mewn sgwrs gyda Gareth Ffowc Roberts.

11:30 Gweithdy Polisi a Chynllunio Iaith

Sesiwn anffurfiol lle bydd cyfle i rannu prosiectau ar waith (ymarferol neu ymchwil) ym maes cynllunio iaith. Arweinir y sesiwn gan Dr Huw Lewis a Dr Elin Royles. Canolfan Gwleidyddiaeth a Chymdeithas Cymru.

14:00 Aduniad Aber

Wedi astudio yn Aber? Dewch draw i'r stondin am luniaeth ysgafn a chyfle i hel atgofion gyda hen ffrindiau. Croeso i bawb.

Dydd Iau

10:30 Iechyd Gwledig: Beth yw'r sialensiau?

Dr Rachel Rahman, o'r Ganolfan am Ragoriaeth yn Ymchwil Iechyd Gwledig sydd yn cyflwyno ymchwil ar y cyd â Byrddau Iechyd Hywel Dda a Powys ar sialensiau gofal iechyd gwledig.

12:00 Darlith Flynyddol E G Bowen: 'Eira 1947: 70 mlynedd o gofio'

Dr Cerys Jones o Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear sydd yn traddodi'r ddarlith flynyddol gan edrych yn ôl ar oblygiadau eira mawr 1947.

15:00 Seremoni Wobrwyo "Her Gyfieithu 2017"

Cyhoeddi enillydd Her Gyfieithu 2017 - cyfieithu cerdd gan y bardd Twrceg Nazim Hikmet i'r Gymraeg. Cynhelir gan Gyfnewidfa Llen Cymru (Prifysgol Aberystwyth) mewn cydweithrediad â PEN Cymru, Prifysgol Abertawe, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Llenyddiaeth ar draws Ffiniau a Desg Gymorth Llywodraeth Cymru Ewrop Greadigol (yr Undeb Ewropeaidd).

Dydd Gwener

12:00 Sesiwn wybodaeth am y cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol

Paned a sgwrs am y cwrs uwchraddedig Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Hefyd, helpa drysor cyfieithu a chyfle i ennill taleb gwerth £35!

14:00 Cwis mawreddog 'Her y Brifysgol'

Cwis hwyliog rhwng staff a myfyrwyr y Brifysgol dan ofal y cwis-feistr Dr Russell Davies.

15:30 Aduniad Haf UMCA

Cyfle i fyfyrwyr cyfredol UMCA rannu eu clecs am holl anturiaethau'r haf.

16:30 Seremoni'r Cadeirio

Dewch draw i wylïo'r Cadeirio ar ein sgrin fawr dros baned a chacen.

Hefyd ar y stondin

Cymdeithas y Cyn-fyfyrwyr | Beic Smwddi | Cornel plant | Sgrin fawr | Taith rithwir - gweld Aber mewn 360° | Paned am ddim... a llawer mwy.

Hefyd yn yr Eisteddfod

13:00 Dydd Sul, 6ed o Awst

Cwt Drama - 'Er Cof' - Perfformiad gan bedair myfyrwraig o Adran Theatr, Ffilm a Theledu. www.ercof.cymru

11:30-12:30 Dydd Mercher, 9 Awst

Sinemaes - Detholiad o ffilmiau arobryn gan fyfyrwyr Adran Theatr, Ffilm a Theledu'r brifysgol.

Pafliwn Gwyddoniaeth

Ymwelwch â ni yma drwy gydol yr wythnos i ddarganfod a fwynhau amrywiaeth o weithgareddau gwyddonol.

Maes B:Tipi Dyma Dy Le!

Ymlaciwch yn ein tîpi ar Maes B o ddydd Mercher i ddydd Sadwrn. Aelodau UMCA a Llysgenhadon Myfyrwyr wrth law am sgwrs.



Pweru ffôn